**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 445**
**10 Rhagfyr, 2020 - Cyfarfod Zoom**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | | |
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| **Staff S4C:** | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau** | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Roedd wedi derbyn ymddiheuriad gan OD.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau oni bai am ddatganiad RhW mewn perthynas ag Ofcom.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd RhW ei adroddiad ar lafar.

**Aelodaeth y Bwrdd**

Adroddodd RhW fod nifer o ymgeiswyr arbennig o dda o feysydd gwahanol. Roedd rhestr wedi mynd gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chyfweliadau yr wythnos ganlynol. Gobeithir bydd modd penodi erbyn diwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror gydag aelodau newydd wedyn yn cychwyn erbyn mis Ebrill.

**Diweddariad o ran Cyflenwad Statudol y BBC**

**[Crynodeb:** Amlinellodd RhW y cefndir i'r trafodaethau gan gynnwys y cyfarfod ar ddechrau mis Medi gyda Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC. Ar ddechrau Rhagfyr derbyniwyd papur trafod gan BBC Cymru yn ymhelaethu ar y pynciau a godwyd yn y cyfarfod.

Roedd OE ac EM i gyfarfod Rhodri Talfan Davies a Rhys Evans yr wythnos ganlynol er mwyn ymateb i'r papur. Byddai wedyn cyfarfod pellach gyda Tim Davie dechrau Ionawr. Felly, roedd angen canfod barn y Bwrdd ar y materion dan sylw.

Trafodwyd yr elfennau gwahanol sy'n cynnwys Newyddion, Yr Eisteddfod Genedlaethol, Pobol y Cwm a Chwaraeon. Roedd pawb yn gytûn fod angen proses diwydrwydd dyladwy a thryloywder o ran y costau a'r risgiau cyn bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniad.]

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

**Cydleoli**

**[Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar y prosiect cydleoli gan EM ac OE. Nodwyd bod dau ddiwrnod o 'dummy running' wedi digwydd yr wythnos cynt ac ar y cyfan aeth pethau'n iawn. Roedd symud diwedd mis Ionawr 2021 yn edrych fel posibiliad.

Byddai angen diweddaru'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Ionawr a'r gobaith oedd byddai'r swyddogion mewn sefyllfa i argymell 'Go Live' erbyn hynny.]

**Staffio dros Nadolig**

Nodwyd fod amserlen staffio dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd wedi'i chytuno, gydag aelodau'r Tîm Rheoli ar gael bob dydd dros y cyfnod rhag ofn.

**Archif Ddarlledu Genedlaethol**

**[Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar gynlluniau'r Llyfrgell Genedlaethol i archifo deunydd S4C a chyflogi rhywun i weithio gyda S4C. Roedd papur yn cael ei baratoi ar gyfer y Bwrdd.]

**Brexit**

Roedd adroddiad fel rhan o'r papurau ar barodrwydd S4C ar gyfer diwedd y cyfnod trosiannol yn sgil Brexit. Nodwyd hynny.

4. **Strategaeth 2022**

Cyflwynodd RhW dogfen drafod ar gyfer Strategaeth 2022. O Ebrill 2022 ymlaen, roedd hi'n angenrheidiol fod y gwasanaeth yn edrych yn wahanol a bod hynny'n amlwg ac yn glir i'r gynulleidfa.

**[Crynodeb:** Nodwyd bod ymateb y staff i waith Morgan Lloyd yn dangos bod cytuno ar bwrpas S4C ac roedd y ddogfen yn gyson gyda'r hyn roedd y Bwrdd wedi ystyried dros y misoedd diwethaf.

Cyflwynodd OE sleid oedd yn ceisio crynhoi'r cyfeiriad strategol a'r hyn oedd angen gwneud. Roedd SL yn falch o weld addysg fel rhan o'r drafodaeth. Cytunodd OE gan ychwanegu bod angen cynllun addysg mewn partneriaeth gydag eraill.

Nododd OE fod mynediad ac amlygrwydd yn holl bwysig yn y byd digidol. Rhaid i'n gwasanaethau fod yn groesawgar o ran iaith a safon.

Roedd rhai Aelodau yn teimlo nad oedd eglurder o ran yr amserlen na'r buddsoddiad oedd angen. Nododd OE fod y gwaith hynny'n digwydd ar hyn o bryd a byddai mwy o fanylion mis Ionawr gan gynnwys sgerbwd o'r cais fyddai'n mynd at DCMS.]

5. **Diweddariad Cynnwys**

Nodwyd y bwriad o gyflwyno diweddariad ar y prosiectau Newyddion Digidol, S4C Lleol, a'r Casglwr Cynnwys ym Mhwyllgor Cynnwys mis Ionawr.

6. **Rhaglen Waith y Bwrdd**

Cyflwynwyd drafft o Raglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2021. Byddai ychydig llai o gyfarfodydd a'r bwriad oedd ceisio bod yn fwy strategol o ran beth sydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgorau a'r bwrdd. Dogfen fyw oedd hon fydd yn cael ei haddasu a'i diweddaru yn ystod y flwyddyn.

Derbyniwyd y ddogfen fel rhaglen waith 2021, gan gymryd i ystyriaeth fod pethau'n newid ac addasu yn enwedig o dderbyn aelodau newydd.

Nodwyd bwriad OLl i siarad gyda'r Aelodau Anweithredol cyn paratoi papur ar gynllun / pecyn croeso i'r Bwrdd ystyried ym mis Ionawr.

7. **Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynwyd adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys gynhaliwyd ar y 9fed o Ragfyr.

8. **Cofnodion Cyfarfod 19 Tachwedd 2020**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 444 gynhaliwyd ar 19eg Tachwedd. Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Bwrdd. Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

9. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr.

O ran setliad cyflog, nodwyd fod BECTU wedi cytuno i'r argymhelliad, ac felly fe fydd setliad cyflog o 1.6% yn daladwy o Awst 2020.

10. **Unrhyw fater arall**

Cyfeiriodd y Cadeirydd bawb at strategaeth newydd 5 mlynedd Channel 4 (Future4), ac Ymgynghoriad Ofcom ar Ddyfodol y Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus. Nodwyd byddai S4C yn ymateb i'r ymgynghoriad maes o law. Nododd EM y byddwn yn parhau i drafod a chydweithio gyda'r PSBs eraill ar faterion fel amlygrwydd.

Nodwyd y newyddion da y byddai S4C yn newid i slot 104 ar Virgin Media yng Nghymru yn y flwyddyn newydd.

Diolchodd RhW i bawb gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.